



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

Consortiwm Addysg Cymru

Cyfarfod Dau: Dydd Mawrth 21ain Chwefror 2017
Canolfan Dylan Thomas, Abertawe, SA1 1RR

www.athrofa.cymru

Consortiwm Addysg Cymru

Presennol: Yr Athro Dylan Jones, Cyfarwyddwr, Yr Athrofa, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Paul Collard, Prif Weithredwr, Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg; Yr Athro Trevor Gale, Deon, Ysgol Addysg, Prifysgol Glasgow; Laura Perille, Llywydd a Phrif Swyddog Gweithredol, EdVestors; Amy Sanders, Cyfarwyddwr, Dynamix; Yr Athro David Woods, prifysgolion Warwick a Llundain; Yr Athro Mick Waters, Prifysgol Wolverhampton; Dr Carol Campbell, Athro Cyswllt Arweinyddiaeth a Newid Addysgol, Prifysgol Toronto; Gillian Hamilton, Prif Weithredwr, Coleg Arweinyddiaeth Addysgol yr Alban; Yr Athro Peter Rabbett, Yr Athrofa, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Gareth Evans, Yr Athrofa, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Ailgynullodd ail gyfarfod Consortiwm Addysg Cymru banel rhyngwladol o addysgwyr nodedig i rannu eu harbenigedd er mwyn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru i wella addysg. Mae'r Comisiwn wedi ymrwmo i weithredu fel llai annibynnol, cyfaill beirniadol a ffynhonnell cyngor i'r gymuned addysg. Fel un o elfennau craiff yr Athrofa, mae'r Comisiwn yn sicrhau ein bod yn edrych tuag allan, gan ddysgu o'r arfer gorau a'r ymchwil fwyaf effeithiol i feysydd addysgu a dysgu, arweinyddiaeth a'r broses o ddatblygu system hunanwella.

Rhannwyd y cyfarfod yn ddwy ran benodol. Cydnabu'r gyntaf y gwaith diweddar i ddatblygu Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol newydd, a sefydlwyd er mwyn helpu i sicrhau bod gan bob arweinydd yn system addysg Cymru y sgiliau a'r wybodaeth gywir i fodd o fudd i ddisgyblion. Bydd yr

Academi Genedlaethol, a arweinir i ddechrau gan Ann Keane, cyn-Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn helpu ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol newydd a gwireddu'r weledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru. Gan ystyried hynny, gwahoddodd y Comisiwn dri thyst arbenigol i gyflwyno eu sylwadau ar heriau arweinyddiaeth addysgol a'u goblygiadau i Gymru. Nododd Gillian Hamilton, Prif Weithredwr Coleg Arweinyddiaeth Addysgol yr Alban; yr Athro David Woods, Cadeirydd Strategaeth Arweinyddiaeth Llundain; a'r Athro Mick Waters, Prif Gynghorydd Llywodraeth Cymru ar ei Safon Arweinyddiaeth Broffesiynol, eu profiad unigryw eu hunain o arweinyddiaeth addysgol mewn gwahanol gyd-destunau. Cafodd y Comisiwn gyfle i drafod y dystiolaeth a ddarparwyd yn fanwl, cyn dod i'w gasgliadau.

Ymatebodd ail ran y cyfarfod i'r cyfraniad a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, a'i thim, a gyflwynodd gwestiynau ysgrifenedig i'w trafod gan y Comisiwn. Croesawyd adroddiad cyntaf y Comisiwn gan Ms Williams ac, felly, gwahoddwyd Ysgrifennydd y Cabinet i holi'r aelodau am eu barn ar nifer o faterion. Cymerwyd ei chwestiynau un ar y tro a gwnaethant ysgogi trafodaeth iach ymhlith yr aelodau. Ceisiodd Ms Williams gyngor ar y canlynol: 1) Gwella perfformiad y disgyblion mwyaf talentog ac abl mewn system deg sy'n ymrwymedig i wella safonau i bawb; 2) Y ffyrdd gorau o sicrhau bod y proffesiwn addysgu yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwygio addysg, tra'n meithrin hinsawdd o greadigrwydd ac arloesedd; 3) Recriwtio i'r proffesiwn addysgu drwy lwybrau gwahanol - a'r potensial i bobl ymuno â'r system addysg o broffesiynau eraill.

Crynodeb Gweithredol

Cyflwynwyd y Comisiwn i arfer gorau o bob cwr o'r byd ac ystyriodd farn ystod eang o aelodau, pob un â'i brofiad unigryw o wella ysgolion. Am y rheswm hwn, nid yw'n hawdd crynhoi'r cyfraniadau hynny a bydd yn rhaid i ddarllenwyr ystyried yr adroddiad ar ei ffurf lawnaf er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r materion mwy penodol a godwyd a'r atebion a gynigiwyd. Fodd bynnag, mae nifer o themâu a negeseuon sylfaenol sy'n codi dro ar ôl tro a gofnodir yn y crynodeb gweithredol canlynol:

Roedd y Comisiwn o'r farn bod ceisio sicrhau arweinyddiaeth systemau effeithiol ar bob lefel o fewn y system addysg yng Nghymru yn hollbwysig. I'r perwyl hwnnw, croesawodd uchelgais Llywodraeth Cymru i greu system sydd wir yn gwella ei hun ac roedd yn cefnogi'r ymrwymiad parhaus i wella perfformiad pawb a pherfformiad i bawb. Canmolwyd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am barhau hyd y diwedd a mynd ati i weithredu'r agenda ddiwygio bresennol, am fod sefydlogrwydd gwleidyddol yn un o nodweddion allweddol systemau hunanwella llwyddiannus.

Pwysleisiodd yr aelodau fod angen creu diwylliant ar gyfer newid, gan gydnabod bod Cymru wedi dechrau ar broses i ddiwygio'r system yn gyfan gwbl. Er mwyn gwneud hyn bydd angen newid meddylfryd ac ymddygiad pobl ym mhob rhan o'r proffesiwn addysg. Felly, mae'r her sy'n wynebu arweinwyr ar bob lefel yn fawr a byddant yn hanfodol i sicrhau y caiff gweledigaeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru ei gwredu'n llwyddiannus. Mae arweinyddiaeth ddsbarthedig yn strategaeth allweddol ar gyfer rhannu'r cyfrifoldeb hwn.

Cyfeiriodd y Comisiwn at yr angen am eglurder a chysondeb yn naratif y broses ddiwygio addysg ac awgrymodd y byddai'n well gwneud ychydig o bethau yn dda iawn yn hytrach na cheisio gwneud gormod yn

rhy fuan. Anogodd Llywodraeth Cymru i fod yn glir ynghylch sut y caiff llwyddiant ei mesurau ei fesur a cheisio cyfleu'r neges honno i bob rhanddeiliad. Roedd yr aelodau o'r farn y bydd llwyddiant yn dibynnu ar ymgorffori dysgu gydol oes fel un o nodweddion allweddol y proffesiwn addysg yng Nghymru. Dywedwyd y dylai Cymru anelu yn y pen draw at gyfuno ymchwil ac arfer ym mywydau athrawon ystafell ddsbarth o ddydd i ddydd.

Wrth ymateb i gwestiynau Ysgrifennydd y Cabinet, nododd y Comisiwn y gall y systemau addysg sy'n perfformio orau yn y byd gyfuno tegwch a rhagoriaeth yn llwyddiannus a gofynnodd yr aelodau i ba raddau y mae Cymru yn llawn ymwybodol o'r amrywiaeth a geir o fewn ei phoblogaeth o fyfyrwyr ac ar draws ei chymunedau amrywiol iawn. Gofynnodd a yw Cymru yn deall yr heriau sy'n gysylltiedig â gwella cyrhaeddiad a dilyniant fel y maent yn ymwneud â disgyblion ar bob lefel.

Cynigiodd y Comisiwn y dylid parhau i ganolbwyntio ar ymgysylltu yn ystod y broses diwygio addysg oherwydd, heb gyfranogiad athrawon, ni fydd newid yn digwydd. Awgrymodd y dylai Cymru ystyried ffyrdd newydd o lunio polisi, gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol ar bob lefel mewn prosesau datblygu polisi. Byddai dwyn pob rhanddeiliad o bob rhan o'r sbectrwm addysgol ynghyd i drafod problemau sylweddol a helpu i gyfrannu at y broses o'u datrys yn llwyddiannus yn helpu i feithrin diwylliant o gydweithredu.

Gwersi o'r Alban

Dechreuodd y Comisiwn gymryd tystiolaeth gan Gillian Hamilton, Prif Weithredwr Coleg Arweinyddiaeth Addysgol yr Alban (SCEL). Mae SCEL, a sefydlwyd yn 2014 yn dilyn argymhellion a wnaed yn 'Teaching Scotland's Future', yn cefnogi dysgu proffesiynol athrawon ac ymarferwyr y blynyddoedd cynnar ym maes arweinyddiaeth. Mae'n ymrwymedig i sicrhau'r arweinyddiaeth orau bosibl ar bob lefel ym mhob ysgol yn yr Alban. Esboniodd Ms Hamilton yr heriau a wynebodd wrth sefydlu sefydliad 'hyd braich' newydd a nododd feysydd y gallai Cymru eu hystyried wrth symud ymlaen. Dilynwyd hyn gan drafodaeth agored ynghylch y pwyntiau a godwyd a gwnaed y sylwadau canlynol:

- Ystyriodd y Comisiwn bŵer cyfleu'r hyn sydd ar gael i ysgolion yn effeithiol. Nododd bwysigrwydd cynnwys y proffesiwn yn y broses o feddwl mwy am ddatblygu arweinyddiaeth a'r ffordd orau o wneud hynny. At hynny, trafododd yr aelodau yr angen i farchnata'r hyn rydych yn ei gynnig yn effeithiol, gan ddefnyddio digwyddiadau ymgysylltu proffil uchel a gohebiaeth ysgrifenedig er mwyn lledaenu eich neges i ysgolion.
- Ystyriwyd bod gwaith partneriaeth yn hanfodol i ddull cenedlaethol o ymdrin ag arweinyddiaeth addysgol, gyda sefydliadau y tu allan i gorff cenedlaethol cyffredinol yn hanfodol i'w lwyddiant. Nododd y Comisiwn fod angen cynnwys undebau addysg a grwpiau eraill o rhanddeiliaid yn y broses barhaus o ddatblygu 'Academi Genedlaethol'.
- Amlinellodd y Comisiwn yr angen i bennu amserlen a llif gwaith ar gyfer datblygu arweinyddiaeth yn genedlaethol. Roedd o blaid dull gweithredu hirdymor a llwybr clir, gan rybuddio rhag ymyrraeth wleidyddol a'r newid difeddwl sy'n gysylltiedig â "dilema system".

- Dadleuodd y Comisiwn yn gryf o blaid manteision sefydlu Academi Genedlaethol newydd sy'n gweithredu 'hyd braich' oddi wrth y Llywodraeth er mwyn iddi gadw rhywfaint o annibyniaeth sy'n ei galluogi i weithio mewn partneriaeth agosach â rhanddeiliaid allweddol.
- Ystyriwyd bod y "tanfuddsoddi" ymddangosiadol mewn arweinyddiaeth addysgol gan brifysgolion yn broblem, er i'r Comisiwn nodi'r gronfa gymharol fach y gellid recriwtio uwch academyddion yn y ddisgyblaeth ohoni. Ystyriwyd bod yr anhawster i benodi pobl i uwch swyddi yn cyfrannu at y diffyg rhaglenni arweinyddiaeth addysgol sy'n cael eu cynnig yn y DU ar hyn o bryd.
- Nododd y Comisiwn y "proffil" ychwanegol roedd SCEL wedi'i roi i arweinyddiaeth addysgol yn yr Alban ac awgrymodd y gallai Cymru hefyd elwa pe bai sefydliad i gyfleu neges gref, glir i'r proffesiwn. Croesawodd y cysyniad o 'Gymrodr Arweinyddiaeth' a'r angen i recriwtio penaethiaid profiadol i weithredu fel cefnogwyr cyhoeddus Academi Genedlaethol. Clywodd fod "perchenogaeth" o SCEL o'r tu mewn i'r proffesiwn wedi bod yn hanfodol.
- Ystyriodd yr aelodau y lefel o hygredded a roddir i sefydliad addysgol gan uwch dîm rheoli sydd â phrofiad uniongyrchol o addysgu ac arwain ysgol. Trafodwyd hefyd y manteision sy'n gysylltiedig â gweithio mewn sectorau eraill y tu allan i faes addysg. Siaradodd Ms Hamilton yn gadarnhaol am ei phrofiad fel pennaeth a'r amser a dreuliodd yn gweithio mewn nifer o leoliadau ysgol. Dywedodd fod hyn wedi ei helpu i ennyn parch cydweithwyr.

Gwersi o Lundain

Clywodd y Comisiwn gan yr Athro David Woods, Cadeirydd Strategaeth Arweinyddiaeth Llundain (LLS). Mae LLS yn sefydliad nid er elw a redir ac a arweinir gan bennaethiaid mewn swydd. Deilliodd o raglen 'London Challenge' ac mae'n gweithio i gadw ei hysbryd a'i chenhadaeth yn fyw. Mae gan LLS rwydwaith helaeth o Arweinwyr Addysg Cenedlaethol a rhwydwaith o ysgolion eithriadol sy'n arwain dysgu ledled Lloegr. Cyflwynodd yr Athro Woods y cysyniad o 'arweinyddiaeth systemau' a'i nodweddion. Dilynwyd hyn gan drafodaeth agored ynghylch y pwyntiau a godwyd a gwnaed y sylwadau canlynol:

- Roedd y Comisiwn o'r farn bod cymhwysio "dull melin trafod" at arweinyddiaeth systemau a'r syniad o hunanwella, gan ddefnyddio arweinwyr sector i feithrin gallu a chreu momentwm yn gynnar, yn fuddiol.
- Roedd o'r farn bod hyrwyddo "cydymdrech" yn bwysig i gyflawni'n llwyddiannus, gan greu ymdeimlad o le, diben a balchder yn y rhai sy'n gyfrifol am roi newidiadau ar waith.
- Ystyriodd y Comisiwn y defnydd o "atebolrwydd llym" yn ystod 'London Challenge' er mwyn sicrhau bod ymyriadau yn cael effaith ar safonau. Rhoddwyd targedau penodol i ysgolion ac roedd disgwyl y câi gwelliannau angenrheidiol eu gwneud. Clywodd yr aelodau sut y cafodd ysgolion eu paru gan ddefnyddio data a chawsant ddau gyfle i ffurfio cydberthynas waith â phartner. Siarodd yr Athro Woods am y model "asiantaeth gariadon", a ddefnyddiwyd i baru ysgolion â'i gilydd.
- Nododd y Comisiwn y posibiladau a gynnigir gan y cyfryngau cymdeithasol, y gellid eu defnyddio i ledaenu arfer gorau ac annog trafodaeth o fewn y proffesiwn. Roedd o'r farn bod pob dull o gyfathrebu, gan gynnwys y rhai sy'n hygyrch drwy'r rhyngwyd, yn hanfodol.

- Roedd y Comisiwn o'r farn bod y defnydd o iaith – a llunio naratif cydlynol – yn ganolog i unrhyw gynllun gwella. Nododd arfer llwyddiannus mewn gwledydd eraill, megis y defnydd o fentrau lleol i sicrhau cyfranogiad y proffesiwn a meithrin gallu. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y broses o gwmpasu arfer gorau yn debyg i "drysor cudd"; hynny yw, canfod yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn maes penodol ac wedyn ei ledaenu'n ehangach.
- Nododd yr aelodau fanteision cael 'Swyddogion Cyflawniad Myfyrwyr', fel y rhai a ddefnyddir yng Nghanaada, a gaiff eu secondio i'r Llywodraeth o'r sector ei hun ac sy'n gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn bwysig meithrin gallu, ond roedd yn ymwybodol na ddylid creu dibyniaeth mewn ysgolion na rhyngddynt.
- Trafodwyd rôl 'cyfalaf moesol' wrth ategu 'London Challenge'. Nododd yr aelodau mai un o'r nodweddion sylfaenol a sicraodd fod model Llundain yn llwyddiannus oedd cydnabod nad oedd unrhyw gyllid ychwanegol gwirioneddol ar gael - a bod y cymhelliant dros sicrhau bod ysgolion a oedd yn perfformio'n well yn rhannu'r hyn roeddent wedi'i ddysgu oedd ymgorffori ymdeimlad o gyfalaf moesol, a fyddai'n cymell athrawon i ystyried eu rôl i wella deilliannau pob plentyn yn Llundain.

Gwersi o Gymru

Trydydd tyst y Comisiwn, sef ei dyst olaf, oedd yr Athro Mick Waters, Prif Gynghorydd Llywodraeth Cymru ar ei Safon Arweinyddiaeth Broffesiynol newydd. Amlinellodd yr Athro Waters y gwaith datblygu sydd wedi'i wneud hyd yma a sut y byddai'r Safon Arweinyddiaeth yn ceisio annog a helpu staff addysgu i ymgymryd â datblygiad proffesiynol drwy gydol eu gyrfa. Mae'r Safon Arweinyddiaeth yn cyd-fynd yn agos â 'Dyfodol Llwyddiannus' a rhaglen radical newydd Cymru i ddiwygio'r cwricwlwm. Dilynwyd hyn gan drafodaeth agored ynghylch y pwyntiau a godwyd a gwnaed y sylwadau canlynol:

- Croesawodd y Comisiwn y cyfeiriad arfaethedig yng Nghymru, gydag un Safon Arweinyddiaeth y bwriedir iddi gefnogi ymarferwyr drwy gydol eu gyrfa. Roedd yr aelodau o'r farn y byddai Safon Arweinyddiaeth ehangach ei chwmpas yn fuddiol, gan alluogi twf proffesiynol a rhoi mwy o gyfle i drafod o fewn y proffesiwn. I'r gwrthwyneb, roedd y Comisiwn o'r farn bod safonau manylach a mwy rhagnodol yn cael effaith leihaol ac mai dim ond swyddogaeth weinyddol sy'n ymwneud â rheoli perfformiad a gyflawnir ganddynt.
- Roedd y Comisiwn yn awyddus i wybod pa rôl y byddai'r arolygiaeth addysg yn ei chwarae yn y dyfodol o ran rhoi'r Safon Arweinyddiaeth ar waith – a gofynnodd pwy a fyddai'n gyfrifol am sicrhau y câi ei mabwysiadu'n llwyddiannus. Dywedodd y bydd eglurder ynghylch atebolrwydd yn hanfodol.
- Roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod y Safon Arweinyddiaeth yn cyd-fynd â'r agenda ddiwygio ehangach - a chyfleu i ysgolion sut y byddai'n helpu'r proffesiwn i addasu i newidiadau arfaethedig. Roedd o'r farn bod y ffaith mai nod y Safon Arweinyddiaeth yw cefnogi dysgu yn bwynt gwerthu allweddol ac y dylai fod wrth wraidd unrhyw weithgarwch hyrwyddo dilynol. Fodd bynnag, nododd yr aelodau y byddai hyn

yn gofyn am newid meddylfryd llawer o bobl – a bod y Safon Arweinyddiaeth newydd yn wahanol iawn i ffurfiau blaenorol arni. Cytunwyd y byddai'r Safon Arweinyddiaeth, a ysgrifennwyd gan ystyried cwricwlwm 'Dyfodol Llwyddiannus', yn golygu bod angen newid agwedd – ac y dylid ystyried ei bod yn gyfrwng ar gyfer datblygiad personol yn hytrach nag adnodd gweinyddol cosbol.

- Yn yr un modd, roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn bwysig bod y proffesiwn yn gweld bod ei ymwneud â'r Safon Arweinyddiaeth yn cael ei ategu gan waith mewn ysgolion a'r agenda gwella ysgolion ehangach. Argymhellodd yr aelodau y dylid egluro diben y Safon Arweinyddiaeth mewn negeseuon hyrwyddol.
- Roedd y Comisiwn o'r farn bod angen gwarcheidwad ar gyfer y Safon Arweinyddiaeth – a sefydliad cryf a chadarn a fydd yn trefnu'r broses o'i rhoi ar waith a'i lleadaenu o fewn y proffesiwn. Roedd ymgysylltu â'r undebau hefyd yn cael ei ystyried yn hollbwysig.

Sylwadau terfynol ac argymhellion

Ar ôl ystyried pob un o'r tri chyflwyniad, gwahoddwyd y Comisiwn i gyflwyno ei sylwadau terfynol a'i argymhellion ar arweinyddiaeth addysgol. Maent fel a ganlyn:

- Roed y Comisiwn o'r farn ei bod yn bwysig peidio ag "enwi a chodi cywilydd" wrth hyrwyddo arweinyddiaeth systemau ac annog cydweithredu rhwng ysgolion. Rhybuddiodd rhag canolbwyntio ar yr ysgolion sy'n perfformio waethaf yn unig ac argymhellodd y dylid ystyried y ffordd orau o helpu'r rhai sy'n sefyll yn eu hunfan ger y canol i wella eu perfformiad.
- Nododd y Comisiwn bwysigrwydd gwella sgiliau arweinwyr addysgol newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, ond galwodd am strwythurau i helpu i ledaenu rhinweddau arweinyddiaeth yn ehangach ymhlith y gweithlu. Ystyriwyd bod arweinyddiaeth wedi'i dosbarthu yn hanfodol i feithrin gallu o fewn y proffesiwn. Canmolwyd y syniad o ddatblygu "timau arweinyddiaeth cyfarwyddiadol" o bump neu chwe arweinydd ysgol fel un o nodweddion llwyddiannus systemau addysg dramor. Nododd yr aelodau y byddai meithrin arweinyddiaeth ar bob lefel yn fuddiol yn yr hirdymor.
- Nododd y Comisiwn fod angen mynd ati i wella perfformiad yng Nghymru ar unwaith – ond bod angen sicrhau na fyddai hyn yn tansellio'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu yn fwy cyffredinol ac y byddai angen ewyllys wleidyddol gref er mwyn "cyflawni'r nod" a'i gwneud yn bosibl i bolisiau newydd ymsefydlu.
- Awgrymwyd y gallai "cymhlethdod iaith" wedi'i gyflwyno yn y Safon Arweinyddiaeth Broffesiynol herio ymarferwyr yn well wrth iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa a lle maent wedi'i gyrraedd ar hyd eu taith wella. Roedd yr aelodau o'r farn y gallai datganiadau arweiniol alluogi athrawon i "weithio allan lle maent arni ac i ble mae angen iddynt fynd nesaf".
- Croesawyd natur eang y Safon Arweinyddiaeth yn gynnes a rhybuddiodd yr aelodau rhag creu "athrawon templed" wedi'u rhwymo gan feini prawf a oedd yn ffrwyno arloesedd a chreadigrwydd.
- Roedd y Comisiwn yn amau rôl prifysgolion o ran datblygu arweinyddiaeth a chynigiodd y posibiladau a gynigir gan fodolau partneriaeth. Roedd o blaid mabwysiadu "dull gweithredu yn seiliedig ar ddysgu gydol oes" ac ystyriodd y nifer fawr o ffyrdd eraill y gallai prifysgolion gyfranogi. Cyfeiriodd yr aelodau at yr ymchwil academiaidd helaeth sydd wedi'i gwneud i arweinyddiaeth addysgol a dywedwyd mai prifysgolion oedd yn y sefyllfa orau i wybod ble i ddod o hyd iddi. Ystyriwyd ei bod yn hanfodol bod gwaith ymchwil wrth wraidd y broses o ddatblygu arweinyddiaeth ac awgrymodd yr aelodau y dylai prifysgolion fanteisio ar y cyfle i gynnwys athrawon mewn gwaith ymchwil; gan eu defnyddio fel ymchwilwyr, yn hytrach na gosod gwaith ymchwil arnynt. Codwyd y posibilrwydd o sefydlu cymunedau ymchwil mewn ysgolion.
- Ystyriodd yr aelodau y syniad o Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol annibynnol nad yw wedi'i lleoli mewn prifysgol na sefydliad cyswllt. Ystyriodd y Comisiwn a fyddai'n fuddiol pe bai Academi Genedlaethol yn gysylltiedig ag Ysgol Addysg, os nad oedd yn rhan o sefydliad o'r fath. Awgrymodd yr aelodau y dylai fod o leiaf bartneriaeth gref â phrifysgolion lleol wedi'i chyfleu o'r cychwyn cyntaf er mwyn sicrhau bod mewnbnw academiaidd yn strategol ac yn gydlynol.
- Dywedodd y Comisiwn fod cydbwysio anghenion lleol tra'n parhau i gymryd agwedd ryngwladol yn bwysig a bod angen ei ymgorffori yng ngwaith yr Academi Genedlaethol o'r dechrau. Ar gyfer rhaglenni prifathrawiaeth newydd, ystyriwyd bod ymgysylltu'n agos â phob rhanddeiliad yn hanfodol ond y dylid gwrthod y temtasiwn i ailbecynnu rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Awgrymwyd bod

angen i raglenni paratoi ar gyfer prifathrawiaeth ganolbwyntio ar yr agweddau strategol ar arweinyddiaeth, sy'n cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu agweddau allweddol ar bolisi.

- Nododd yr aelodau bwysigrwydd siarad ac ysgrifennu am fater arweinyddiaeth addysgol a'i hyrwyddo yn fwy cyffredinol ac y byddai'n ddefnyddiol pe bai pobl allweddol neu arbenigwyr yn eu maes yn siarad yn gyhoeddus am y gwaith hwn wrth iddo fynd rhagddo. Gallai'r bobl hyn fod yn arweinwyr i'r proffesiwn ehangach.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried crynhoi ei hamcanion gwella yn nifer fach o ganlyniadau penodol â blaenoriaeth. Gallai'r rhain fod yn set gyffredinol o themâu, megis sicrhau: tegwch, cyflawniad uchel, llesiant a gwella hyder y cyhoedd. Roedd yr aelodau o'r farn bod hyn yn bwysig i wrthsefyll naratif negyddol yn y cyfryngau. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, awgrymwyd y dylid nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu pob canlyniad â blaenoriaeth ac y dylid dechrau drwy ddrafftio datganiad rhagarweiniol cryf ynghylch diben yr agenda wella ehangach.
- Cynigiodd y Comisiwn y gellid llunio cyfres o astudiaethau achos arfer gorau, wedi'u hysgrifennu gyda phartneriaid ymchwil, a'i rhannu o fewn y proffesiwn. Gallent ganolbwyntio ar fater neu garfan benodol a chael eu comisiynu gan brifysgolion mewn cydweithrediad ag ysgolion.
- Wrth sefydlu Academi Genedlaethol newydd Cymru, rhybuddiodd yr aelodau rhag ceisio statws elusennol o gofio'r baich cyfansoddiadol a gweinyddol y gallai ei gyflwyno. Ystyriwyd bod sicrhau bod y sefydliad yn weithredol cyn gynted â phosibl, heb y pwysau ariannol i fod yn hunangynhaliol, yn fuddiol i ddatblygiad yr Academi Genedlaethol yn y byrdymor. Yn lle hynny, awgrymwyd y dylai'r Academi Genedlaethol fuddsoddi yn y sefydliadau

sy'n darparu addysg i athrawon a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ar hyn o bryd yng Nghymru. Ystyriwyd bod ymrwymiad i ariannu'r Academi Genedlaethol am gyfnod penodol yn hanfodol i osod y sylfeini ar gyfer ei hehangu ymhellach.

- Awgrymwyd bod yn rhaid i'r Academi Genedlaethol ystyried barn pob rhanddeiliad, yn enwedig y plant eu hunain. Dywedodd yr aelodau y dylai plant bob amser fod ym meddwl llunwyr polisi ac, wrth sefydlu darpariaeth newydd ym maes arweinyddiaeth, y dylai'r rhai sy'n gyfrifol am ei chyflwyno geisio barn plant fel rhan o'r broses. Nododd y Comisiwn fod yn rhaid i leisiau plant lywio ffocws y broses ddiwygio addysg ac y gallent helpu i nodi meysydd gwan a/ neu broblemau sydd angen eu datrys.

Cwestiynau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

1) Gofynnwyd i'r Comisiwn, gan ddefnyddio ei brofiad, ystyried y ffordd orau o wella perfformiad y disgyblion mwyaf talentog ac abl mewn system deg sy'n ymrwymedig i wella safonau i bawb. Gwnaed y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Ystyriodd y Comisiwn y bwlch cymharol gul rhwng cyflawnwyr uchel a chyflawnwyr isel yng Nghymru - a nododd fod cyfran y disgyblion sy'n cyflawni orau yng Nghymru islaw cyfartaledd OECD ar gyfer darllen, mathemateg a gwyddoniaeth yn astudiaeth PISA 2015. Roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn bwysig cofio bod system addysg deg yn golygu bod angen i bob disgybl gyflawni hyd eithaf ei allu - ac nad yw system yn deg os nad yw ei disgyblion mwyaf talentog ac abl yn gwireddu eu potensial. Awgrymodd y Comisiwn y dylid gwneud ymchwil bellach i ganfod pam mai cyfran isel o ddisgyblion sy'n cyflawni'n dda sydd yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd OECD. Fodd bynnag, nodwyd, drwy sicrhau bod y bwlch rhwng cyflawnwyr uchel a chyflawnwyr isel yn gymharol fach, fod Cymru wedi llwyddo i sicrhau nodwedd ddymunol o fewn systemau addysg yn fwy cyffredinol.
- Awgrymwyd ei bod yn bosibl bod "diffyg trylwyrdd academaidd" wedi cyfrannu at y ffaith bod gan Gymru gyfran isel o gyflawnwyr uchel ac y byddai'r ffordd y mae athrawon yn dehongli datgan, yn olrhain disgyblion ac yn defnyddio ymyriadau yn allweddol i wella safonau. Dywedodd y Comisiwn nad oedd yn gwneud synnwyr cael "perfformiad cyfartalog teg" ac roedd o'r farn ei bod yn hanfodol bod "pob cwch yn codi gyda'i gilydd".
- Roedd yr aelodau o'r farn bod yr amrywiaeth mawr ym maint ysgolion a'r "diffyg her" canfyddedig mewn rhai rhannau o Gymru yn ffactor pwysig. Nododd yr aelodau y nifer fawr o ysgolion sydd â llai na 200 o ddisgyblion - a'r nifer fawr iawn o ysgolion sydd ag ychydig o athrawon yn unig. Roedd y Comisiwn yn amau a oedd yr ysgolion hyn yn cael yr un cymorth ac a oeddent yn cael eu herio i'r un graddau ag ysgolion mwy o faint.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleu'r hyn sydd ei angen i gyrraedd y gwahanol lefelau cyrhaeddiad a chamau cynnydd yn ystod taith ddysgu disgybl, yn well. Awgrymwyd ei bod yn bosibl y bydd angen i ddisgyblion a staff ysgolion gael diffiniad cliriach o'r hyn y mae cymhwyster lefel uwch yn ei olygu - a'r hyn y mae angen i ddisgybl ei wneud er mwyn ei gyflawni. Roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn bwysig bod llunwyr polisi yn benodol ynghylch y ffordd y dylid rhoi gwahanol feysydd o'r cwricwlwm ar waith. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol cael gwybod beth fyddai nodweddion cymwysterau lefel uwch a'r hyn y byddent yn ei olygu.
- Ystyriodd y Comisiwn y cymhellion gwrthnysig sy'n gysylltiedig â chategoreiddio ysgolion ac arolygiadau Estyn - a nododd sut y byddai rhai ysgolion yn fwy cyfforddus yn aros yn "haen ganol" mesurau perfformiad. Awgrymodd fod "atchwelyd i'r cymedr" yn bosibiliad gwirioneddol yn yr hinsawdd bresennol ac y dylid gwneud gwaith i ystyried effaith systemau atebolrwydd ar ymddygiad ysgolion.
- Roedd y Comisiwn o'r farn y gall y systemau addysg sy'n perfformio orau yn y byd gyfuno tegwch ac ansawdd yn llwyddiannus. Ailbwysleisiodd na ddylai canolbwyntio gwelliant mewn meysydd penodol fod yn fater o gyflawni'r targedau hawsaf ac y dylid ystyried demograffeg disgyblion yn gyffredinol. Gofynnodd yr aelodau a oedd Cymru yn llwyr ymwybodol o amrywiaeth ei phoblogaeth o fyfyrwyr. Cyflwynwyd y Comisiwn i waith ymchwil ym maes addysg uwch sy'n awgrymu bod cyflawniad academaidd myfyrwyr ym mhoblogaethau mwy heterogenaidd prifysgolion yn tueddu i fod yn uwch na chyflawniad academaidd myfyrwyr ym mhoblogaethau mwy homogenaidd prifysgolion. At hynny, nid oes a wnelo â'r amrywiaeth o fyfyrwyr mewn un brifysgol ac un ystafell ddsbarth yn unig, mae a wnelo hefyd â'r ffaith bod yr amrywiaeth hon yn effeithiol ar natur y cwricwlwm ac addysgeg yn ystafelloedd dosbarth y prifysgolion hynny. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil hefyd yn dangos mai myfyrwyr o gefndiroedd breintiedig - sef y rhai sydd eisoes yn perfformio'n dda - sy'n mwynhau'r manteision academaidd mwyaf.
- Nododd y Comisiwn asesiad OECD o system addysg Cymru a pherfformiad cymharol wael ei ddisgyblion mwyaf abl a thalentog. Ond canmolodd Llywodraeth Cymru am wrthod syflyd a pheidio ag ymateb yn ddifeddwl yn dilyn canlyniadau PISA siomedig Cymru ym mis Rhagfyr 2016. Dywedodd yr aelodau ei bod yn bwysig bod gweinidogion yn glynu wrth eu cred eu bod yn gwneud y peth iawn - a pheidio â chael eu gorfodi i newid cyfeiriad gan fesurau perfformiad rhyngwladol.
- Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gofyn i Estyn lunio adroddiad newydd yn seiliedig ar ganfyddiadau degau o arolygiadau, sy'n ymwneud yn benodol â'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella perfformiad disgyblion mwyaf abl a thalentog Cymru.
- Ystyriodd yr aelodau a ellid meddwl am enw arall ar y grŵp hwn o fyfyrwyr yn hytrach na "mwyaf abl a thalentog", gan godi pryderon y gallai grwpiau eraill o fyfyrwyr eu hystyried eu hunain yn eilradd o ganlyniad. Awgrymwyd hefyd y dylai ysgolion a llunwyr polisi ddod o hyd i ffyrdd o roi gwerth ar fathau eraill o wybodaeth a'u hyrwyddo, yn ychwanegol at y gwerth sy'n deillio o brofion.
- Ystyriodd y Comisiwn y themâu canlynol wrth geisio ysgogi gwelliant o ran cyflawniad academaidd myfyrwyr: buddsoddi yn ansawdd athrawon; dysgu ar lefel gradd meistri i bob athro mewn meysydd allweddol megis y cwricwlwm, addysgeg ac asesu; creu cymunedau o ymholi ac arfer wedi'u lleoli yn yr ysgol, sy'n hwyluso ymchwil i ymarfer bob dydd sydd wedi'i dargedu tuag at anghenion/cydestun penodol sefydliadau unigol; ymestyn y dull partneriaeth a ddefnyddir gan addysg gychwynnol i athrawon i addysg athrawon yn ystod y cyfnod cynnar a thrwy gydol eu gyrfa; a buddsoddi yn y genhedlaeth bresennol a'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr addysgol.

Cwestiynau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

2) Gofynnwyd i'r Comisiwn, gan ddefnyddio ei brofiad, ystyried y ffyrdd gorau o sicrhau bod y proffesiwn addysgu yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwygio addysg, tra'n meithrin hinsawdd o greadigrwydd ac arloesedd. Gwnaed y sylwadau canlynol:

- Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd buddsoddi mewn athrawon. Dywedwyd, os bydd athrawon yn meddwl bod addysgu yn rhoi cyfle iddynt dyfu a datblygu; ac y gallant chwarae rhan yn y broses o benderfynu sut beth fydd y system addysg yn y dyfodol, y byddant yn fwy awyddus i gyfranogi. Dywedodd y Comisiwn fod angen i weinidogion ledled y byd gael mwy o ffydd yn y proffesiwn a'i arbenigedd er mwyn sicrhau newid.
- Ystyriodd y Comisiwn y gwahaniaeth rhwng cyfnodau ac athrawon fel enw torfol. Nododd yr aelodau fod amrywiaeth mawr ym maes addysgu rhwng cyfnodau, rhannau o Gymru ac amgylchiadau gyrfaol gweithwyr proffesiynol. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried athrawon ar wahanol gamau yn eu gyrfa a'r gwahaniaeth rhwng agwedd athro newydd gymhwyso ac athro sy'n nesáu at ddiwedd ei yrfa, er enghraifft. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai'n ddefnyddiol ystyried pob is-set wahanol o athrawon a'r angen i ymdrin â mater ymgysylltu ag athrawon mewn ffordd ychydig yn wahanol ar gyfer pob un.

- Awgrymodd yr aelodau y dylid holi athrawon er mwyn ceisio canfod pa broblemau y maent yn eu hwynebu, o'u safbwynt hwy. Wedi hynny, gellid ceisio dod o hyd i atebion cydweithrediadol. Nodwyd bod yn rhaid i ddiwygiadau gweinidogol gael eu gweld yn mynd i'r afael â phroblem wirioneddol y mae athrawon yn credu ei bod ganddynt, neu eu bod yn annhebygol o ymrwymo iddynt.
- Pwysleisiodd y Comisiwn bŵer ymgynghori ac ymgysylltu ag athrawon. Awgrymwyd y dylai gweinidogion ysgrifennu at ysgolion yn unigol; cynnal fforymau; cyfarfod yn rheolaidd ag undebau addysgol a chyrrff cynrychioliadol; a chynnal digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol. Cytunodd yr aelodau y byddai "canolbwyntio'n barhaus ar ymgysylltu" yn llawer mwy tebygol o sicrhau bod athrawon yn "cefnogi'r" hyn y mae gweinidogion yn ceisio ei gyflawni. Ystyriwyd bod rhoi cyfle i athrawon leisio eu barn ynglŷn â datblygu polisiau yn hanfodol i sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn llwyddiannus.
- Roedd canfyddiad bod y gyfundrefn arolygu ysgolion bresennol yn rhwystr a'i bod yn atal y system addysg yng Nghymru rhag datblygu. Roedd yr aelodau o'r farn bod angen i arolygwyr ddod o hyd i ffordd o gyflwyno eu hunain yn wahanol a chael eu hystyried yn rhan o'r ateb, nid y problem.

- Roedd yr aelodau o'r farn bod naratifau athrawon yn rhan annatod o weithgarwch ymgysylltu cadarnhaol a galwyd ar Lywodraeth Cymru i "greu awyrgylch lle mae athrawon yn teimlo'n hyderus i arloesi". Argymhellwyd y dylid rhoi hwb i forâl athrawon a rhoi sicrwydd iddynt "na fyddai newid yn digwydd heb athrawon". Nododd yr aelodau, mewn rhai achosion, fod athrawon yn ofni rhoi cynnig ar bethau newydd.
- Awgrymodd y Comisiwn y byddai'n werth dod o hyd i "ffyrdd newydd o roi polisi ar waith – yn hytrach na pha bolisi y dylid ei fabwysiadu". Ystyriodd yr aelodau y cysyniad o'r 'Tabl Partneriaeth Addysg' a gyflwynwyd yn Ontario yng Nghanada. Fel rhan o'r fforwm hwn, a sefydlwyd i alluogi mewnbwn ehangach i brosesau datblygu polisi, gwahoddir arweinwyr grwpiau cynrychioliadol ym maes addysg i gyfarfodydd (y Tabl Partneriaeth Addysg) er mwyn trafod problemau sylweddol a helpu i gyfrannu at y broses o'u datrys yn llwyddiannus. Caiff holl ddarparwyr gwasanaethau addysg a ariennir yn gyhoeddus (yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli disgyblion, rhieni ac athrawon) eu dwyn ynghyd yn rheolaidd er mwyn galluogi pawb ym maes addysg i ddeall safbwyntiau a barn eraill. Mae wedi golygu bod pob polisi addysg yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth a bod athrawon yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses llunio polisi. Cyflwynwyd y Tabl Partneriaeth Addysg dros ddegawd yn ôl ac roedd mor llwyddiannus fel ei fod yn dal i fod yn nodwedd ar system addysg Ontario hyd heddiw.

- Roedd yr aelodau o'r farn y byddai'n fuddiol canfod ble mae arfer gorau ac arloesedd i'w cael ar hyn o bryd a chynnig yr ysgolion hyn fel esiamplau o "hyrwyddwyr". Wedyn, gellid gwneud ymdrechion i rannu a hyrwyddo'r gwaith hwn ymhlith eraill fel rhan o broses o feithrin gallu. Yn lle bod Llywodraeth Cymru yn dewis ysgolion fel esiamplau disglair o arfer gorau, awgrymwyd y dylai alw am "fabwysiadwyr a chodwyr llaw parod" i rannu eu gwaith neu dreialu mentrau newydd. Nodwyd, os bydd yr ysgolion hyn yn gallu gwneud cynnydd, y byddai ysgolion eraill wedyn yn fwy awyddus i wneud yr un peth.

Cwestiynau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

3) Gofynnwyd i'r Comisiwn, gan ddefnyddio ei brofiad, ystyried recriwtio i'r proffesiwn addysgu drwy lwybrau gwahanol – a'r potensial i bobl ymuno â'r system addysg o broffesiynau eraill. Gwnaed y sylwadau canlynol:

- Gofynnodd yr aelodau pa ffrydiau ariannu a bwrsariaethau a oedd ar gael er mwyn helpu pobl i ymuno â'r proffesiwn addysgu. Anogwyd Llywodraeth Cymru i ystyried pa fath o athrawon roedd am eu cael ac a oedd prinder athrawon yn benodol ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM); anghydbwysedd rhwng y rhywiâu; neu wahaniaethau yn ôl daearyddiaeth, ethnigrwydd neu iaith. Argymhellodd y Comisiwn y dylid nodi nifer y bobl sy'n gwneud cais i ddilyn cyrsiau ar hyn o bryd ac awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir ynghylch yr hyn y mae am ei gael. Dadleuodd yr aelodau o blaid mabwysiadu dull recriwtio wedi'i dargedu'n fwy.
- Yn yr un modd, gofynnwyd pa gymorth a oedd ar gael i gynorthwyyr addysgu "gamu i fyny" a dod yn athrawon cwbl gymwysedig. Nododd yr aelodau fod gwella sgiliau cynorthwyyr addysgu yn nodwedd ar raglen lwyddiannus iawn 'London Challenge' a'i bod yn ffordd dda o fynd i'r afael â phrinder athrawon yn gyflym.

- Dywedodd y Comisiwn y dylid creu mwy o gyfleoedd i bobl ddod yn athrawon. Yn ogystal â chymhellion ariannol, ystyriodd pa mor fuddiol oedd y gallu i astudio'n rhan-amser ac ar-lein i'r rhai na allant ddilyn rhaglenni hyfforddi athrawon rheolaidd a mwy traddodiadol.
- Nododd yr aelodau y gwaith sydd wedi'i wneud yn yr Alban, a Gogledd-ddwyrain yr Alban yn benodol, sydd wedi dioddef o brinder ymgeiswyr â chymwysterau addas i ymuno â'r proffesiwn addysgu, ac felly prinder athrawon cymwysedig. Yn yr Alban, manteisiwyd ar y dirywiad anffodus yn y sector olew a nwy, sydd wedi rhyddhau grŵp posibl o bersonél profiadol a chymwysedig a allai ystyried newid gyrfa i ymuno â'r proffesiwn addysgu. Creodd arian gan Lywodraeth yr Alban y cyfle i fanteisio ar yr adnodd cyfoethog o bersonél o'r sector olew a nwy a allai feddu ar y sgiliau, y profiadau a'r cymwysterau i ysbrydoli pobl ifanc yn yr Alban drwy addysgu a diwallu'r angen am fwy o athrawon mewn pynciau allweddol lle roedd prinder athrawon.
- Ystyriodd yr aelodau fanteision cydnabyddiaeth ariannol ac amodau da, gan ofyn a ellid gwneud mwy i gefnogi darpar athrawon. Nododd y Comisiwn y gallai sybsideiddio cost cymwysterau a

llety yn ystod astudiaethau; cynnig gwaith rhan-amser i athrawon mewn diwydiannau eraill; a chyfnodau sabothol fod yn gymhellion posibl.

- Dadleuodd y Comisiwn o blaid hyrwyddo cymwysterau addysgu ôl-raddedig fel ffordd o ddenu pobl â setiau sgiliau ac arbenigedd gwahanol i'r proffesiwn.
- Rhybuddiodd yr aelodau rhag cyfyngu ar nifer yr unigolion hynny a all gofrestru ar gyfer cyrsiau addysg gychwynnol i athrawon a dweud y dylid ystyried bod addysgu yn "alwedigaeth ryngwladol yn hytrach na galwedigaeth genedlaethol". Awgrymwyd y dylai unrhyw ymgyrch farchnata fanteisio ar y ffaith bod cymwysterau addysgu yn drosglwyddadwy unrhyw le yn y byd, yn wahanol i gymwysterau sy'n gysylltiedig â phroffesiynau eraill megis y gyfraith.
- At hynny, awgrymodd yr aelodau y dylid cynnal ymgyrch genedlaethol i atgoffa pobl mai addysgu "yw'r swydd orau yn y byd". Byddai hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol, ond ystyriwyd bod y manteision yn sylweddol hefyd. Nododd y Comisiwn y defnydd a wnaed yn flaenorol o hysbysebion ar fyrddau posteri, hysbysfyrddau a bysiau mewn ymgyrchoedd marchnata llwyddiannus i recriwtio athrawon.

- Roedd y Comisiwn o'r farn bod hyrwyddo proffil addysgu fel proffesiwn yn "gylch rhinweddol", oherwydd, pan fo'r proffesiwn yn frwd dros yr hyn y mae'n ei wneud, mae myfyrwyr yn gweld y brwdfrydedd hwnnw yn yr ystafell ddosbarth ac yn dyheu am ddilyn yn ôl traed eu hathro. Ystyriwyd bod y manteision sy'n gysylltiedig â sicrhau bod addysgu yn broffesiwn uchel ei barch yn ddiamau. Yn yr un modd, argymhellodd yr aelodau y dylid ystyried y cymorth a'r cyfleoedd datblygu proffesiynol a roddir i athrawon ar ôl iddynt ddechrau yn y swydd – a'r effaith gadarnhaol ar forâl a brwdfrydedd dros addysgu y gallai hyn ei chael.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

www.athrofa.cymru